

Catchphrase Ysbyty Brynaber - Week 95

Key Language

blwyddyn / blwydd
ill
y sawl

New Words

pa hwyl?	how are you?
mynd o flaen gofid	to anticipate the worst, literally to go ahead of grief
wastad	always
yn llygad ei lle	absolutely right, literally in the eye of her place
cyfaddawdu	to compromise
gynnau fach	a short while ago
eiliad	a second
nerth esgyrn fy mhen	at the top of my voice, literally the strength of the bones of my head
yn blwmp ac yn blaen	clearly
drennydd	the day after tomorrow
erfyn ar	to plead with
dwn i'm (nid wn i ddim)	I don't know
tynnu coes	to tease, literally to pull s.o.'s leg
ar fai	at fault
y tro olaf un	the very last time

Chris deliberately ran into Jenny's car but tries to make out that it was an accident.

Chris - Dw i moyn ymddiheuro am redeg maes i'r hewl heb edrych yn iawn...rwy'ti'n gweld, roedd hi'n bwrw glaw shwt gymaint, gwnes i dynnu fy 'hood' dros fy mhen i...ac o achos hynny wnes i ddim gweld dy gar di'n dod...

Michelle wheedles some personal information out of Brian. He confides in her that he feels responsible for Rhodri's problems

Michelle - Paid â theimlo'n euog, Brian.

Brian - Pam? Mae o'n sefyll i reswm onid ydy? Dw i heb fod yn dad da i Rodri ers misoedd...

Michelle - Ie...Ond...Rwy'ti wastad wedi gwneud dy siâr..Rwy'ti wedi gwneud mwy na dy siâr a dweud y gwir...Gwnest ti fynd i'r 'scittles night' yna gyda fe, yn dofe?

Brian - Allwn i ddim peidio. Roedd hi'n ben-blwydd arno fo, onid oedd?

Michelle - There's no point in torturing yourself...

Brian -Dydw i ddim yn leicio meddwl amdano fo yn mynd trwy'r boen meddwl yna i gyd...Tasai Agnes a finnau yn dal efo'n gilydd fuasai beth wnaeth ddigwydd byth wedi digwydd...Buasai Rhodri heb redeg i ffwrdd...Dyna'r gwir amdani...

Main Grammatical Points

1. The phrase *dyflwydd* occurs this week. *Dyflwydd* is a shortened version of *dwylwydd* which means two years old.

The word for 'year', when it's used without any preceding numbers, is *blwyddyn*

We'd say: *Blwyddyn yn ôl* - a year ago

However when talking about someone's age we have to say *blwydd*.

Mae hi'n *dair blwydd oed*
She's three years old.
Mae o'n bedair blwydd oed.
He's four years old.

So when you hear Wendy telling Jenny that Vicky is now '*dyflwydd a hanner*' she's saying that the child is two and a half - or literally: two years and a half.

2. If you want to say 'the two of you, or you two', you could say *chi eich dau*

Pob lwc i chi'ch dau - Good luck to the two of you.

But when Jenny asks Wendy about Vicky and Frank, she says:

Sut maen nhw *ill dau*? - How are the two of them or how are they both?
ill can also be used with other numbers as well. For example:

Dewch ill tri - Come on, you three

ill corresponds to *eich* in these examples but it can also replace *ein* when referring to 'us' and it can replace *eu* when referring to 'them'. Let's look at some examples:

Dyn *ni'n dau* yn mynd i briodi
The two of us are going to get married - but you could just as easily say:
Dyn ni *ill dau* yn mynd i briodi

Maen *nhw eu tri* yn edrych yn grêt
The three of them look great - or of course:
Maen nhw *ill tri* yn edrych yn grêt.

3. You've probably already come across *sawl* in the sense of 'how many?' - as in

Sawl diwrnod sydd mewn wythnos = How many days are there in a week?
Sawl mis sydd mewn blwyddyn. = How many months are there in a year?

But when *sawl* follows *y* or *yr*, it means 'whoever' or 'a specific person'

We hear Jenny telling Wendy that she won't be able to get her hands on the results of the DNA test before Brian does, as hospital tests can only be posted to the specific patient who asked for them:

Mae'n rhaid postio'r manylion i'r *sawl* sydd wedi gofyn amdanyn nhw.

Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 283

Wendy's worried about the results of the DNA test.

Michelle's getting quite flirty with Brian - but he has other things on his mind.

Chris has bought Jenny a gift - oh no! Is he back to his old ways?

Geirfa

pa hwyl?	how are you?
mynd o flaen gofid	to anticipate the worst, literally to go ahead of grief
wastad	always
yn llygad ei lle	absolutely right, literally in the eye of her place
cyfaddawdu	to compromise
gynnau fach	a short while ago
eiliad	a second
nerth esgyrn fy mhen	at the top of my voice, literally the strength of the bones of my head

Golygfa 1

Wendy - Dr Saunders?

Jenny - Wendy...pa hwyl erbyn hyn?

Wendy - Sleepless nights. As ever.

Jenny - Dw i'n siwr. A sut mae Frank yn cysgu erbyn hyn?

Wendy - It varies really. Weithiau mae fe'n 'bril', a dw i'n meddwl, he's finally cracked it -

naw o'r gloch nos tan saith o'r gloch bore - ffantastig! Ond y noson wedyn he blows it, a mae fe lan am oriau...He drives me crazy!

Jenny - Gwneith o wella'n aradeg.

Wendy - Takes time, though.

Jenny - Mae Vicky'n cysgu trwy'r nos rwan, onid ydy?

Wendy - Ydy! Ond mae hi'n ddyflwydd a hanner. Bydd hi'n dechrau'r ysgol feithrin yn y flwyddyn newydd...I can hardly believe it.

Jenny - Gyda llaw, mae canlyniad y paternity test yna i fod i gyrraedd yn ôl o'r lab yfory...

Wendy - Yeah...Dw i'n cofio...

Jenny - Dych chi'n swnio'n bryderus?

Wendy - Fi. Ydw. Ond mae Brian yn despret i gael gwybod y result...

Jenny - Dw i'n siwr eich bod chi'n mynd o flaen gofid, Wendy...A dw i'n siwr cewch chi'r canlyniad dych chi'n dyheu amdano fo...

Wendy - Yeah...Ond... beth os dydy e ddim beth dw i'n dyheu amdano fe?

Jenny - Gallaf i weld sut gallai hynny greu problemau...

Wendy - World War III more like...I mean...Look...You know...

Jenny - Beth?

Wendy - Na. Dim ots. Forget it...

Jenny - Dowch heibio'r ysbyty yfory os dych chi eisiau. Cewch chi wybod y canlyniad cyn iddo fo gael ei bostio i chi...

Wendy - O.K. Diolch. I might well do that...Or phone you.

Golygfa 2

Michelle - Paid â theimlo'n euog, Brian.

Brian - Pam? Mae o'n sefyll i reswm, onid ydy? Dw i heb fod yn dad da i Rodri ers misoedd...

Michelle - Ie...Ond...Rwy'ti wastad wedi gwneud dy siâr. Rwy'ti wedi gwneud mwy na dy siâr a dweud y gwir...Gwnest ti fynd i'r 'scittles night' yna gyda fe, yn dofe?

Brian - Allwn i ddim peidio. Roedd hi'n ben-blwydd arno fo, onid oedd?

Michelle - There's no point in torturing yourself...

Brian -Dydw i ddim yn leicio meddwl amdano fo yn mynd trwy'r boen meddwl yna i gyd...Tasai Agnes a finnau'n dal efo'n gilydd, fuasai beth wnaeth ddigwydd byth wedi digwydd...Buasai Rhodri heb redeg i ffwrdd...Dyna'r gwir amdani...

Michelle -Does neb yn gallu troi'r cloc yn ôl...

Brian - Na, dw i'n gwybod...Ond dw i'n dal i deimlo'n euog.

Michelle - Drinc arall?

Brian - Na. Ddim diolch. Well i fi feddwl am fynd yn ôl i'r gwaith...

Michelle - Don't look so troubled, Brian...Makes you seem ten years older...

Brian - Wyt ti'n meddwl?

Michelle - Ydw...You've got such lovely eyes...

Brian - Does neb wedi dweud hynny wrthyf i erioed o'r blaen...

Michelle - Accept a compliment when it's given then. Dyna beth oedd mam wastad yn ei ddweud wrthyf i...

Brian - Roedd hi yn llygad ei lle...Diolch i ti Michelle...Reit...Dw i off...

Michelle - O, paid â mynd eto...dywed wrthyf i am 'bytu Rhodri nawr ynte?

Brian - Beth wyt ti'n feddwl?

Michelle - Ydy e wedi dod i fyw atat ti a Wendy?

Brian - Hanner yr amser, do. Roedd rhaid iddo fo gyfaddawdu.

Michelle - Cyfaddawdu? Compromise?

Brian - Ie, dyna chdi.

Michelle - Full house then?

Brian - Llawn iawn am hanner yr wythnos. Reit. Dw i wedi bygwth mynd unwaith yn barod...ond y tro yma, dw i'n ei feddwl o. Gwelaf i di Michelle...

Michelle - See ya. Take care, Bri.

Golygfa 3

Chris - Haia...!

Jenny - Chris - o ble ddest di rwan?

Chris - Gwelais i ti gynnu fach...Yn siarad gyda Wendy, wejen Brian...Ac edrycha...

Jenny - Beth ydy hwn? Anrheg?

Chris - Agor e a chei di weld...I ti.

Jenny - I fi?

Chris - Ie. Wyt ti'n leico fe?

Jenny - Ymmm...ydw...

Chris - Roeddwn i'n gwybod dy fod ti'n hoff o'r lliw glas...Sylwais i ar hynny yn dy fflat di...Covers y sofa yna...Ac wrth i fi ddewis yr ymbarél yma, dyma fi'n dweud wrthyf fi'n hun: 'I know that she loves blue. Matches her eyes...'

Jenny - Wyt ti wedi bod yn fy nilyn i bore yma...

Chris - Naddo. Chance meeting...

Jenny - Chris...Edrycha... Dydw i ddim yn gofyn i ti...Dw i'n deud wrthyf ti: rwyf ti wedi bod yn fy nilyn i y bore yma - onid wyt ti? A dydw i ddim yn leicio hynny. Dydw i ddim yn leicio hyn o gwbl...

Chris - Wyt ti moyn i fi fynd â'r ymbarél yn ôl?

Jenny - Nac ydw. Cadwa hi. Dydw i ddim eisiau hi.

Chris - Anrheg yw hi.

Jenny - Dydw i ddim eisiau dy anrhegion di.

Chris - Don't be like this... Jen... Edrycha...For pity's sake...Ti a fi...Rwyf ti'n gwybod...Don't pretend it's not real...

Jenny - Wyt ti'n gweld y dyn security yna draw'n y fan acw? Os na wnei di adael llonydd i mi a mynd o fy ngolwg i o fewn y ddau eiliad nesaf, dw i'n mynd i sgrechian nerth esgyrn fy mhen.

Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 284

Wendy makes a demanding request to Jenny and puts her in a very difficult situation.

Geirfa

yn blwmp ac yn blaen	clearly
drennydd...	the day after tomorrow
erfyn ar	to plead with
dwn i'm (nid wn i ddim)	I don't know

Golygfa 1

Wendy - Come on...come on...

Jenny - Hello?...

Wendy - Dr Saunders? Jenny?

Jenny - Yn siarad...Pwy sydd yna?

Wendy - Wendy. Wendy Keating...

Jenny - O, Wendy. Sut mae? Sori, roedd fy meddwl i ymhell i ffwrdd am eiliad rwan...Sut dych chi y bore yma?

Wendy - Fine...

Jenny - A Vicky? A Frank? Sut maen nhw ill dau?

Wendy - Yeah, fine. Dyn ni gyd yn 'fine', diolch...Listen, I won't beat around the bush - I'll come straight to the point - the DNA test results...Have they come through, yet?

Jenny - Do...Do, maen nhw wedi cyrraedd...

Wendy - Ie? And?

Jenny - Dych chi eisiau mi ddweud wrthyhych chi dros y ffôn, Wendy? Fasai fo ddim yn well - ?

Wendy - Tell me. Tell me now. Right now.

Jenny - Hanner eiliad. Bydd rhaid i mi nôl y -

Wendy - Just tell me!

Jenny - Na...

Wendy - Na beth?

Jenny - Ddim Brian ydy tad Frank.

Wendy - Oh my God. Wyt ti'n siwr?

Jenny - Dyna mae o'n ei ddweud fan hyn. Yn blwmp ac yn blaen. Gallaf i fynd yn ôl at y lab os dych chi eisiau -

Wendy - Oh please! You've got to! Right away!

Jenny - OK. Ond mae'r pethau yma'n weddol bendant fel arfer.

Wendy? Dych chi yna o hyd?

Jenny - Wendy?

Wendy - Ydw. Dw i'n dal yma.

Jenny - Mae'n ddrwg gen i.

Wendy - Yeah, wel...so am I...very sorry...

Jenny - Mi geith y cwbl ei bostio i chi heddiw. Cewch chi weld y peth eich hun yfory, neu drennydd...

Wendy - Sa moyn...

Jenny - Ond dyna'r drefn.

Wendy - Sa i moyn ei weld e.

Jenny - Mae'n rhaid postio'r manylion i'r sawl sydd wedi gofyn amdanyn nhw.

Wendy - Sa i moyn ei weld e. A sa i moyn i Brian ei weld e chwaith.

Jenny - Bydd hynny braidd yn anodd, oni fydd o?

Wendy - Na fydd...

Jenny - Allwch chi ddim cadw'r llythyr rhagddo fo...

Wendy - That's not what I had in mind.

Jenny - Beth, ynte?

Wendy - Dw i moyn i chi newid manylion y llythyr... Dw i'n sôn am serious crisis management yn fan hyn. Dych chi'n deall hynny onid ydych chi? If Brian finds out, all hell is going to break loose and God only knows what will happen then...

Jenny - Dw i'n deall hynny...

Wendy - Dych chi'n fodlon newid y details? Dweud taw Brian yw tad Frank? Plîs?

Jenny - Wendy -dych chi'n sylweddoli beth dych chi'n gofyn i mi ei wneud?
Wendy - Wrth gwrs fy mod i...I don't want to have to put you in this position... but you've got to help me...
Jenny - Dych chi'n gofyn i mi ymyrryd efo manylion profion o'r lab...Manyllion allai cael eu defnyddio mewn llys barn ryw ddydd...
Wendy - Ddaw hyn ddim i lys barn...All this will do is put Brian's mind at rest...And surely, that's got to be a good thing? Mae'n rhaid eich bod chi'n gallu gweld hynny?
Jenny - Gallaf i weld hynny...ond...
Wendy - So, what's the big deal?
Jenny - Na, allaf i ddim...
Wendy - Plîs, dw i'n erfyn arnoch chi...
Jenny - Wendy, dych chi'n fy rhoi i mewn sefyllfa anodd...
Wendy - Chi mewn sefyllfa anodd? Beth am 'bytu fi ynte?
Jenny - Wendy -
Wendy - If you don't do this for me, you will be personally responsible for wrecking this relationship...
Jenny - Efallai dylsech chi wedi meddwl am hynny flwyddyn yn ôl, cyn cysgu efo dyn arall -
Wendy - Mae Brian yn ôl - clywais i sŵn y car tu fas! Plîs! Plîs! Dw i'n erfyn! Jenny - I'm on my hands and knees!
Wendy - Plîs?
Jenny - Dwn i'm wir...
Wendy - Diolch. Diolch yn fawr...
Brian - Haia...Pwy oedd ar y ffôn?
Wendy - Bri, cariad! Dw i mor falch dy fod ti yn ôl. Smo ti'n mynd i gredu hyn!

Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 285

Wendy lies to Brian and tells him that he's Frank's father.

Michelle refuses to give Chris a character reference.

Chris is injured in another car accident!

Geirfa

tynnu coes	to tease, literally to pull s.o.'s leg
ar fai	at fault
y tro olaf un	the very last time

Golygfa 1

Brian - Credu beth...?

Wendy - Dere...Tynn dy gôt gyntaf...A dere i fi agor potel o win i ni...Dw i newydd glywed 'bytu'r DNA test...

Brian - O...A...?

Wendy - Does dim rhaid i ti fecso...It's been scientifically proven, Brian...Ti yw papa Frank...

Brian - Beth? A rwan glywaist di?

Wendy - Yr eiliad yma...

Brian - Dyna pam oeddech chdi ar y ffôn pan ddes i i mewn?

Wendy - Ie.

Brian - A dwyt ti ddim yn tynnu fy nghoes i rwan?

Wendy - Na. The written confirmation will be in the post any day now...Ffantastig, ontefe?

Brian - Ia...Ydy...Grêt...

Wendy - ...Dywedais i wrthyt ti o'r cychwyn cyntaf yn dofe...?

Brian - Do, dw i'n gwybod...

Wendy - Pam doeddet ti ddim yn fy nghredu fi? Pam oedd rhaid mynd trwy'r holl rigmarol yma?

Brian - Sori Wend. Roeddwn i ar fai...dw i'n gallu gweld hynny rwan...Ond ar y pryd, roedd pob math o bethau yn mynd trwy fy mhen i...

Wendy - Dacw ti...

Brian - Diolch...

Wendy - Iechyd da 'then'!

Brian - Iechyd!

Wendy - I ni fel teulu!

Brian - Ie...i ni...

Golygfa 2

Michelle - For the very last time - Na!

Chris - Michelle...

Michelle - There's no point hassling me...the answer will still be no.

Chris - Ond pam?

Michelle - Dw i wedi dweud pam...

Chris - Ond so fe'n gwneud sens!

Michelle - Mae'n gwneud perfaith sens i fi. Now leave me alone...

Chris - O.K. One last try...then I'll leave. Now hear me out...Just hear me out...Right?

Dywedodd Cathy Davies y byddai dy gael ti yn troi lan yn y llys yna yr wythnos nesaf yn gwneud lot o wahaniaeth...Dywedodd hi y byddai dy verbal character statement ti i fi yn bwysig iawn.

Michelle - Na.

Chris - So you're just going to let me go under then?

Michelle - Rwy'ti a fi yn hen hanes, Chris. Hen, hen hanes. Wyt ti'n deall? Ers i ni wahanu, sa i wedi gofyn i ti am ffafr...A sa i'n disgwyl i ti ofyn i fi am ffafr chwaith...

Chris - But I could go down. That's why I've got to pull out all the stops!

Michelle - You can't say for all the good times, 'cause they were actually horrible times.

Chris - Why rake it all up again?

Michelle - Because I believed in you - at one time. Heart and soul...
Chris - Michelle, you're my one and only hope.
Michelle - Am y tro olaf un. Na.
Chris - Why don't I go and top myself then?

Golygfa 3

Chris - C'mon, Jen...Ble wyt ti? Dere gartref, wnei di? Dere gartref...Dere yn ôl ataf i...
OK, here we go... ar ôl tri ...Un - dau - tri -
Jenny - O na, Chris...!
Chris - ...you must really, really hate me...
Jenny - Pam ar y ddaear wnest ti hynny eto?
Chris - I love you, Jen...Dw i'n dy garu di...
Jenny - Beth wyt ti'n trio'i wneud? Rhaid i mi ffonio ambiwlans...
Chris - Dal fy llaw i...
Jenny - Gwnest di redeg o fy mlaen i yn fwriadol jest rwan...
Chris - Dal fy llaw i...Dw i'n teimlo'n oer...
Jenny - Helo? Yes...My name is Dr Jenny Saunders...I want an ambulance to Queen Street...A road accident... Yes... Thank you...
Chris - Dw i wedi methu...
Jenny - Methu beth?
Chris - Methu gwneud i ti fy lladd i, you bitch.

Synopsis

Wendy gets the D.N.A. results but lies about them to Brian

Meanwhile Chris fails to persuade Michelle to give him a character reference and once again throws himself in front of Jenny's car. What's he playing at?

Test yourself

1. Which of the following words for 'year' would you use when talking of someone's age?
 - (a) Blwyddyn
 - (b) **Blwydd**
 - (c) Blynedd
2. Which of the following is incorrect
 - (a) Sawl diwrnod sydd mewn wythnos?
 - (b) **Sawl dyddiau sydd mewn wythnos?**
 - (c) Sawl munud sydd mewn awr?
3. Dacw nhw ----- dau. Fill the blank from the following words:
 - (a) **ill**
 - (b) ein
 - (c) ei
4. Which of the following phrases means 'dead right'?
 - (a) yng nghanol ei lle
 - (b) **yn llygad ei lle**
 - (c) ym mhen ei lle
5. What word means 'the day after tomorrow'
 - (a) **drennydd**
 - (b) dradwy
 - (c) drannoeth
6. If you shout at the top of your voice, do you
 - (a) Gweiddi gyda fy llais
 - (b) Gweiddi ymhen fy llais
 - (c) **Gweiddi nerth esgyrn fy mhen**